CANOLFAN ADDYSG ATHRAWON GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU
NORTH & MID WALES CENTRE OF TEACHER EDUCATION

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# CANOLFAN ADDYSG ATHRAWON GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU

# CYNLLUN STRATEGOL

2015/16 hyd 2019/20

## Datganiad Cenhadaeth CAAGChC

Mae Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru yn ymroddedig i chwarae rhan gyflawn mewn hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol i athrawon.

***Datganiad Cenhadaeth Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru***

*"Ein cenhadaeth yw rhoi i Gymru weithlu addysgu sy'n greadigol ac yn arloesol, yn feirniadol ac yn fyfyriol, ac sydd â'r gallu i ddarparu addysg o ansawdd uchel yng Nghymru mewn ffordd gynaliadwy. Drwy roi arweiniad gweithredol mewn hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol i athrawon yng Nghymru rydym yn anelu at ddarparu dysgu, addysgu, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol o'r ansawdd uchaf, a'r rheini wedi'u siapio gan ymchwil gyfredol mewn addysgeg ac addysg â golwg ar flaenoriaethau a heriadau cenedlaethol a rhyngwladol."*

Wrth graidd cenhadaeth y Ganolfan y mae ei hymroddiad i'r nodau cyffredinol canlynol:

- **NOD 1: Gweithio mewn Partneriaeth mewn Ffordd Effeithiol a Chynhwysol**: Dim ond os bydd y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau arweinyddiaeth a rheolaeth wedi'u dosbarthu'n eang ar draws y Ganolfan y gall y Ganolfan gyflawni'i chynllun strategol a chyrraedd ei nodau. Drwy wneud hyn sicrheir bod y Ganolfan yn meddu ar adnoddau da a'i bod mewn lle da i ddarparu safonau academaidd uchel ar sail gynaliadwy ar yr un pryd â bod yn rhagweithiol ac yn effeithiol wrth siapio'i Chynllun Hunanarfarnu a'i Chynllun Gwella Ansawdd yn gyson.

**NOD 1: Gweithio mewn Partneriaeth mewn Ffordd Effeithiol a Chynhwysol**

*"Mae ymroddiad i weithio mewn partneriaeth mewn modd sy'n gyfannol ac yn cynnwys yr holl bartneriaid gan sicrhau bod y Ganolfan yn effeithiol ac yn effeithlon yn y ffordd y mae'n gweithio, a hynny'n ei galluogi i gyflawni'i nodau strategol. Drwy osod staff mewn swyddogaethau allweddol yn y Ganolfan defnyddir model rheolaeth o'r gwaelod i fyny a fydd yn galluogi staff â mwy o gyfrifoldeb, perchenogaeth ac atebolrwydd yng ngwaith y Ganolfan a swyddogaeth mewn siapio Cynllun Hunanarfarnu a Chynllun Gwella Ansawdd y Ganolfan. Ymrwymiad arall o dan y nod hwn yw rhoi mwy o rym a chyfrifoldeb i ysgolion ddarparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel drwy gydnabod yr ysgolion sy'n cyrraedd y nod a'u dyfarnu'n Ysgolion Rhagoriaeth mewn Hyfforddiant."*

- **NOD 2: System Gadarn o Warantu Ansawdd a Gwella Ansawdd**: Dim ond os bydd y system gwarantu ansawdd a gwella ansawdd yn un gadarn y gellir sicrhau hyder yng nghanlyniadau'r asesu. Mae system o'r fath drwy'r Ganolfan gyfan yn bwysig i wirio cywirdeb a dibynadwyedd canlyniadau'r asesu ac i herio Timau Rhaglen i ymlafnio'n barhaus i wella perfformiad hyfforddeion.

**NOD 2: System Gadarn o Warantu Ansawdd a Gwella Ansawdd**

*"Mae ymroddiad i ennill hyder llwyr yn barhaus yng nghanlyniadau'r asesu. Drwy roi ar waith system gwarantu ansawdd a gwella ansawdd o'r gwaelod i fyny galluogir Timau Rhaglen â'r cyfrifoldeb, y berchenogaeth a'r atebolrwydd i ymgymryd ag arfarniad beirniadol o'u priod raglen yn erbyn Cwestiynau Allweddol Estyn ac i siapio Cynllun Hunanarfarnu a Chynllun Gwella Ansawdd y Ganolfan."*

- **NOD 3: Addysgu, Tiwtora a Mentora o Ansawdd Uchel**: Dim ond os bydd y ddarpariaeth addysgu o fewn y bartneriaeth o safon ragorol y gall y Ganolfan feithrin athrawon creadigol, arloesol o ansawdd uchel. Mae'r Ganolfan yn ceisio sicrhau bod yr addysgu a'r hyfforddiant a ddarperir yn y Prifysgolion a'r ysgolion o'r safon uchaf bosib ac yn arloesi mewn datblygu athrawiaethau addysgeg a dulliau.

**NOD 3: Addysgu, Tiwtora a Mentora o Ansawdd Uchel**

*"Mae ymroddiad i'r addysgu gan bob tiwtor ar draws yr holl raglenni HAGA gael ei ddyfarnu'n gyson fel 'Da' neu'n well. Caiff protocoliau eu gweithredu i sicrhau safoni arferion a nodi a lledaenu arferion da neu ragorol. Yn yr un modd, rhoddir gweithdrefnau barnu ar waith i asesu ansawdd tiwtora a mentora a phwyslais arbennig yn cael ei roi ar gywirdeb (dilysrwydd) a chydberthyniad (dibynadwyedd) asesiadau, atborth a gosod targedau rhwng tiwtoriaid a mentoriaid mewn perthynas ag ymarfer dysgu. Ar ben hynny, bydd gofyn i ysgolion asesu ansawdd a chysonder y mentora sy'n digwydd o fewn ysgolion a gweithredu i'w wella lle nodir lefelau amhriodol o fentora."*

- **NOD 4: Arfer ar Sail Ymchwil**: Mae'n rhaid i'r Ganolfan gynnal gweledigaeth eglur a chyfredol ar gyfer y proffesiwn addysg yng Nghymru ac fe wnaiff hyn drwy gymryd ymchwil addysgol gyfredol fel sail yn ogystal â bod yn llwyr ynghlwm wrth ddatblygu ymchwil addysgol o bwys rhyngwladol.

**NOD 4: Arfer ar Sail Ymchwil**

*"Mae'r Ganolfan yn datgan ei hymroddiad i hybu ymchwil gydweithredol mewn meysydd o addysgeg, addysg athrawon a hyfforddiant, yn ogystal ag ymchwiliad proffesiynol. Datblygir canolbwynt gan y Ganolfan, â'i ffocws ar ysgoloriaethau ymchwil, i weithredu fel rhyngwyneb rhwng addysg uwch ac ysgolion a fydd yn galluogi ysgolion, athrawon a disgyblion i gael mynediad at y datblygiadau a'r prosiectau ymchwil cyfredol mewn prifysgolion yn ogystal â gadael i athrawon gael cymorth staff ymchwil i gynllunio a gweithredu ymchwiliad proffesiynol i unrhyw agwedd ar addysg mewn ysgolion a chonsortia rhanbarthol. Datblygir diwylliant o seminarau ymchwil i Ysgolion y Ganolfan ac fe wnaiff hyfforddeion ddefnydd o ymchwil i ddatblygu ymhellach eu dealltwriaeth o arfer addysgol ac i ymgymryd ag ymchwiliad proffesiynol. Lledaenir esiamplau o ymchwiliad proffesiynol rhagorol i ysgolion o fewn partneriaeth y Ganolfan."*

- **NOD 5: Safonau Academaidd Uchel**: Mae llwyddiant yr athrawon sy'n mynd i mewn i'r proffesiwn addysg yng Nghymru'n dibynnu ar eu bod yn cyflawni safonau academaidd uchel wrth hyfforddi. I alluogi hyn, fe wnaiff y Ganolfan sicrhau bod pob myfyriwr yn cyflawni safonau uchel drwy gydol eu cwrs a datblygu monitro a systemau cefnogaeth a her o fath effeithiol fel y bydd pob myfyriwr yn cwrdd â'r disgwyliadau uchel a osodir.

**NOD 5: Safonau Academaidd Uchel**

*"Mae ymroddiad i bob myfyriwr ar draws yr holl raglenni HAGA gyrraedd o leiaf y safon o 'Dda' erbyn diwedd ei hyfforddiant. Bydd myfyrwyr yn dangos sgiliau meddwl beirniadol effeithiol a'r gallu i gynllunio gwersi yn effeithiol drwy dynnu ar arfarniadau beirniadol o wersi sy'n canolbwyntio ar ansawdd y dysgu a wna'r disgyblion. Gosodir pwyslais hefyd ar ddatblygu athrawon creadigol ac arloesol."*

- **NOD 6: Datblygiad Proffesiynol Mentoriaid, Tiwtoriaid, Athrawon a Staff Ategol**: Os na ddarpara'r Ganolfan gyfleoedd DPP priodol a rheolaidd i diwtoriaid a mentoriaid yna mae perygl na fydd yr hyfforddiant yn cadw'n gyfredol â'r arferion diweddaraf seiliedig ar ymchwil i addysgeg a materion addysgol eraill. Mae eisiau i'r Ganolfan sicrhau bod tiwtoriaid a mentoriaid yn cael eu herio a'u cadw'n gyfredol â'r datblygiadau ymchwil diweddaraf yn genedlaethol ac yn rhyngwladol yn ogystal ag esiamplau o arfer ragorol mewn ysgolion yng Nghymru a mewn mannau eraill.

**NOD 6: Datblygiad Proffesiynol Mentoriaid, Tiwtoriaid, Athrawon a Staff Ategol**

*"Mae ymroddiad i godi ansawdd y tiwtora a'r mentora drwy ddarparu cyfleoedd DPP ar ystod o themâu cysylltiedig ag asesu, TGCh, meddwl yn feirniadol a chreadigrwydd. At hynny, fe sefydlir uned ddatblygiad proffesiynol a fydd yn defnyddio'r wybodaeth arbenigol sydd eisoes i'w chael o fewn y bartneriaeth (Prifysgolion ac Ysgolion Rhagoriaeth mewn Hyfforddiant) ynghyd â darparwyr arbenigol eraill o fannau eraill i ddarparu rhaglen o weithdai datblygiad proffesiynol ar gyfer ysgolion ac athrawon. Caiff modiwlau, â'u ffocws ar radd meistr, yn ymdrin â Mentora Effeithiol ar sail ymarfer y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol eu datblygu a'u cynnig i fentoriaid ac athrawon o fewn partneriaeth y Ganolfan. Cynigir i ymarferwyr mewn ysgolion ddod i gynadleddau rhyngwladol ar faterion yn ymwneud â'r plentyn a datblygiad plant (Byd Plentyn) a sut y bydd plant yn dysgu a'r arferion gorau cyfredol mewn dysgu ac addysgu (Addysgeg).*

- **NOD 7: Lefel Uchel o Ymroddiad i Ddysgu'r Gymraeg a Diwylliant y Gymraeg**: Mae'n rhaid i'r Ganolfan ymdrechu i arbenigo mewn dysgu'r Gymraeg yn unol â'r polisi Cymraeg/dwyieithog sydd wedi'i sefydlu'n gadarn ac yn cwmpasu ysgolion a chymunedau yn rhanbarth gogledd a chanolbarth Cymru, megis Gwynedd, Môn a Cheredigion.

**NOD 7: Lefel Uchel o Ymroddiad i Ddysgu'r Gymraeg a Diwylliant y Gymraeg**

*"Mae ymroddiad i ddysgu'r Gymraeg ar draws yr holl raglenni HAGA drwy ddarparu cyrsiau Cymraeg (achlysurol (dechreuwyr), ail iaith a medrus) i alluogi'r holl athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'u sgiliau Cymraeg a defnyddio'r sgiliau hyn yn effeithiol yn y dosbarth."*

- **NOD 8: Atgyfnerthu Proffeil y Ganolfan a Recriwtio**: I'r Ganolfan lwyddo a chael dyfodol ariannol cynaliadwy mae'n hollbwysig rhoi Polisi Marchnata ar waith drwy'r Ganolfan gyfan, gyda'r adnoddau priodol, a'r polisi hwnnw'n nodi sut y bydd y Ganolfan yn mynd ati i recriwtio myfyrwyr o ansawdd uchel i'w rhaglenni yn ogystal ag ymdrechu i gwrdd â thargedau recriwtio cenedlaethol. Mae angen i'r Ganolfan fod yn rhagweithiol wrth broffilio a marchnata yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

**NOD 8: Atgyfnerthu Proffeil y Ganolfan a Recriwtio**

*"Mae ymroddiad i recriwtio myfyrwyr o ansawdd uchel i'w rhaglenni, i recriwtio yn ôl y targed yn ogystal â sicrhau bod grwpiau yn y gymdeithas sydd wedi'u tangynrychioli'n cael eu recriwtio.*

## Blaenoriaethau Strategol Craidd

Fe wnaiff y Ganolfan fel a ganlyn:

1. Sicrhau bod swyddogaethau a chyfrifoldebau arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael eu dosbarthu'n briodol ac yn eang ar draws y Ganolfan drwy sicrhau eu bod yn cyfateb i'r wybodaeth arbenigol a'r sgiliau sydd eu hangen i oruchwylio'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau hyn. Fe wnaiff hyn sicrhau bod arweinyddiaeth wasgarog yn ei le ar lefel rheolaeth ganol ac uwch ill dwy;
2. Galluogi staff â mwy o gyfrifoldeb, perchenogaeth ac atebolrwydd yng ngwaith y Ganolfan a swyddogaeth mewn siapio Cynllun Hunanarfarnu a Chynllun Gwella Ansawdd y Ganolfan;
3. Galluogi ysgolion â'r cyfrifoldeb i ddarparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel drwy gydnabod yr ysgolion sy'n cyrraedd y nod a'u dyfarnu'n Ysgolion Rhagoriaeth mewn Hyfforddiant;
4. Rhoi ar waith system gwarantu ansawdd a gwella ansawdd a fydd yn galluogi Timau Rhaglen â'r cyfrifoldeb, y berchenogaeth a'r atebolrwydd i ymgymryd ag arfarniad beirniadol o'u priod raglen yn erbyn Cwestiynau Allweddol Estyn ac i siapio Cynllun Hunanarfarnu a Chynllun Gwella Ansawdd y Ganolfan;

5. Sicrhau bod yr addysgu a'r hyfforddiant a ddarperir yn y Prifysgolion a'r ysgolion o'r safon uchaf bosib ac yn arloesi mewn datblygu athrawiaethau addysgeg a dulliau;
6. Cynnal gweledigaeth eglur a chyfredol ar gyfer y proffesiwn addysg yng Nghymru ac fe wnaiff hyn drwy gymryd ymchwil addysgol gyfredol fel sail yn ogystal â bod yn llwyr ynghlwm wrth ddatblygu ymchwil addysgol o bwys rhyngwladol;
7. Sicrhau bod pob myfyriwr yn cyflawni safonau uchel drwy gydol eu cwrs a datblygu monitro a systemau cefnogaeth a her o fath effeithiol fel y bydd pob myfyriwr yn cwrdd â'r disgwyliadau uchel a osodir;
8. Sicrhau bod tiwtoriaid a mentoriaid yn cael eu herio a'u cadw'n gyfredol â'r datblygiadau ymchwil diweddaraf yn genedlaethol ac yn rhyngwladol yn ogystal ag arfer ragorol mewn ysgolion yng Nghymru a mewn mannau eraill;
9. Parhau i arbenigo mewn dysgu'r Gymraeg yn unol â'r polisi Cymraeg/dwyieithog sydd wedi'i sefydlu'n gadarn ac yn cwmpasu ysgolion a chymunedau yn rhanbarth gogledd a chanolbarth Cymru, megis Gwynedd, Môn a Cheredigion;
10. Mynd ati i fod yn rhagweithiol wrth broffilio a marchnata yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol;
11. Marchnata'i chyrsiau mewn modd deniadol ac egnïol a cheisio gwella'r recriwtio o ran niferoedd ac ansawdd, yn enwedig yn y meysydd lleiafrifol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

## Prif Ddangosyddion Perfformiad Allweddol

Defnyddir cyfuniad o ddangosyddion ansoddol a meintiol gan y Ganolfan, peth sydd wedi'i gynllunio i ganiatáu mesur yn ogystal â dyfarniadau cyfannol gan Fwrdd Adolygu Perfformiad y Ganolfan a Bwrdd Cynllunio Strategol Aberystwyth Bangor. Croesgyfeirir y dangosyddion hyn â'r Blaenoriaethau Strategol Craidd (BSC) lle bo'n berthnasol.

1. Cyflawni'r weledigaeth strategol (nodau a blaenoriaethau strategol) [BSC 1 – BSC 11]: BSC1 a 2 – 2015-16; BSC3 – 2015-18; BSC4 – 2015-16; BSC5 – 2015-17; BSC6 – 2015-20; BSC7 – 2015-17; BSC8 – 2015-19; BSC9 – 2015-17; BSC10 – 2015-17; BSC11 – 2015-18
2. Nifer yr ysgolion sy'n ennill statws Ysgolion Rhagoriaeth mewn Hyfforddiant: 5 Uwchradd a 5 Cynradd ar ddiwedd 2015-16; 10 Uwchradd a 10 Cynradd ar ddiwedd 2016-17; 20 Uwchradd ac 20 Cynradd ar ddiwedd 2017-18 [BSC 3]
3. Canlyniadau asesu dilys a dibynadwy [BSC 4]

4. Safon uchel o addysgu yn y brifysgol: 100% o sesiynau tiwtoriaid yn cael eu dyfarnu'n Dda neu'n Rhagorol [BSC 5]
5. Safon uchel o fentora mewn ysgolion: 100% o sesiynau mentora yn cael eu dyfarnu'n Dda neu'n Rhagorol [BSC 5]
6. Mae'r hyfforddiant ar draws yr holl raglenni wedi'i seilio ar ymchwil addysgol gyfredol: gwelir yn gyson fod yr addysgu gan bob tiwtor yn deillio o'r arfer gyfredol ac wedi'i seilio ar ymchwil mewn addysgeg [BSC 6 a BSC 8]
7. Datblygu canolbwynt yn y Ganolfan, â'i ffocws ar ysgoloriaethau ymchwil, i weithredu fel rhyngwyneb rhwng addysg uwch ac ysgolion a fydd yn galluogi ysgolion, athrawon a disgyblion i gael mynediad at y datblygiadau a'r prosiectau ymchwil cyfredol mewn prifysgolion yn ogystal â gadael i athrawon gael cymorth staff ymchwil i gynllunio a gweithredu ymchwiliad proffesiynol i unrhyw agwedd ar addysg mewn ysgolion a chonsortia rhanbarthol [BSC 6]
8. Y Ganolfan yn mynd i'r afael â datblygu ymchwil addysgol o bwys rhyngwladol lle mae staff academaidd ar draws y ddwy brifysgol naill ai'n cydweithio â'i gilydd neu â chydweithredwyr allanol eraill ar brosiectau ymchwil [BSC 6]
9. Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion (90%) sy'n graddio ar y rhaglen, ac ar draws y ddarpariaeth, yn ennill graddau 'Da' neu 'Ragorol' [BSC 7]
10. Lefel uchel o gytundeb rhwng asesiad gan diwtoriaid a chan fentoriaid o hyfforddeion ar ymarfer dysgu: cydberthyniad o 95% ac uwch [BSC 7]
11. Tiwtoriaid a mentoriaid yn cymryd cyfleoedd DPP rheolaidd ar ystod o flaenoriaethau addysgol [BSC 8]
12. Mae'r holl diwtoriaid yn ymgymryd ag ymweliadau sabothol ag ysgolion [BSC 8]
13. Uned ddatblygiad proffesiynol wedi'i sefydlu a fydd yn defnyddio'r wybodaeth arbenigol sydd eisoes i'w chael o fewn y bartneriaeth (Prifysgolion ac Ysgolion Rhagoriaeth mewn Hyfforddiant) ynghyd â darparwyr arbenigol eraill o fannau eraill i ddarparu rhaglen o weithdai datblygiad proffesiynol ar gyfer ysgolion ac athrawon [BSC 8]
14. Modiwl gradd meistr ar Fentora Effeithiol yn seiliedig ar ymarfer y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol wedi'i ddatblygu ac yn cael ei gynnig i fentoriaid ac athrawon o fewn partneriaeth y Ganolfan. Nifer o fentoriaid ac athrawon yn ymgymryd â'r modiwl [BSC 8]
15. Cynnal cynadleddau rhyngwladol [BSC 8]
16. Yr holl hyfforddeion (100%) yn derbyn hyfforddiant a chyfleoedd i ddatblygu'u medr ieithyddol yn y Gymraeg yn ôl eu cefndir [BSC 9]
17. Yr holl hyfforddeion (100%) yn dysgu yn yr iaith Gymraeg yn unol â Pholisi Iaith yr ysgolion y maent ar leoliad ynddynt [BSC 9]

18. Yr holl hyfforddeion (100%) yn defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn yr ysgolion lle maent ar leoliad [BSC 9]
19. Proffilio a hybu'r Ganolfan yn gryfach [BSC 10]
20. Recriwtio 100% yn ôl targedau [BSC 10 ac 11]

## Gweithredu'r Cynllun Strategol a Chyflawni Nodau a Strategaethau Craidd

Mae'r Cynllun Strategol yn gosod y weledigaeth ar gyfer y Ganolfan dros y pum mlynedd nesaf ac fe fydd yn cyfrannu at sicrhau bod darpariaeth y Ganolfan o'r safon uchaf. Wrth wneud hynny y mae'n cyflwyno'r nodau cyffredinol, y strategaethau a'r prif Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sydd angen i'r Ganolfan fel cyfangorff eu cyflawni. Cyfrifoldeb Bwrdd Adolygu Perfformiad y Ganolfan fydd dal arweinyddiaeth y Ganolfan yn atebol o ran rhoi'r Cynllun Strategol ar waith. Bydd y Bwrdd Adolygu Perfformiad ei hun yn gyfrifol am archwilio perfformiad y Ganolfan yn rheolaidd yn erbyn y Cynllun Strategol, i herio'r arweinyddiaeth, ac i ddiwygio'r Cynllun Strategol yn rhagweithiol fel a fo'n briodol yng ngolwg datblygiadau, mentrau a pholisïau addysgol yn genedlaethol a mewn mannau eraill. Bydd y Bwrdd Adolygu Perfformiad a chyflawniad y Cynllun Strategol yn atebol yn eu tro i Fwrdd Cynllunio Strategol Aberystwyth Bangor.